# LLWYBR ARFORDIR GŴYR


© Mutassem Mahmoud

**Gŵyr**
Tirwedd Cenedlaethol

**Gower**
National Landscape

# Llwybr Arfordir Gŵyr Gorllewin

## Cynllunio'ch taith gerdded

Dylech ganiatáu o leiaf 2 ddiwrnod i gerdded y llwybr arbennig hwn sydd 38 milltir (61 km) o hyd rhwng y Mwmbwls a Crofty. Nid oes rhaid i chi wneud y cyfan ar unwaith - gellir ei gerdded a'i fwynhau mewn rhannau byrrach fel y gallwch fwynhau'r profiad ar hyd yr arfordir ar eich cyflymder eich hun.

Gallwch ddisgwyl cymysgedd o amodau tir ar hyd y ffordd - llwybrau garw, grisiau, llethrau ac ambell gamfa. Fel Promenâd Bae Abertawe, mae rhai rhannau'n hygyrch i ddefnyddwyr cadeiriau olwyn a chymhorthion symudedd a'r rheini y mae'n well ganddynt lwybr haws. Gall beicwyr a marchogion hefyd fwynhau rhai adrannau ohono.

Mae'r map hefyd yn dangos llwybrau troed cyhoeddus (yn borffor) a llwybrau ceffyl cyhoeddus (yn wyrdd), y gallwch eu defnyddio i gynllunio'ch taith gerdded eich hun. Sut bynnag rydych chi'n ei archwilio, mae Llwybr yr Arfordir yn ffordd wych o brofi arfordir trawiadol Gŵyr.

## Adrodd am broblemau

Os dewch o hyd i unrhyw broblemau ar Lwybr yr Arfordir neu ar lwybrau eraill, rhowch wybod i ni:

**Tîm Cefn Gwlad**
www.abertawe.gov.uk/problemhawltramwy
mynediadigefnglad@abertawe.gov.uk

## Allwedd y llwybrau troed

- Llwybr yr arfordir
- Llwybrau troed cyhoeddus
- Llwybrau ceffyl cyhoeddus
- Llwybrau i'r traeth
- Tir mynediad
- Parcio





Cyhoeddwyd gan Gyngor Abertawe © Hawlfraint, Chwefror 2024
Roedd yr wybodaeth hon yn gywir wrth fynd i'r wasg , Mehefin 2025


© Hawlfraint y Goron [a chronfa ddata] [2023]
OS [100023509]. Arolwg Ordnans [100023509].

# Llwybr Arfordir Gŵyr Dwyrain

Allwedd ar gyfer y llwybrau troed drosodd




## Dod o hyd i'ch ffordd

Mae cyfeirbyst yn dangos Llwybr yr Arfordir gan ddefnyddio'r logo cragen ddraig.

## Côd Cefn Gwlad

- Cadwch gŵn ar dennyn ac o dan reolaeth agos ger defaid, gwartheg neu adar bridio.
- Gadewch glwydi fel yr oeddent pan ddaethoch ar eu traws.
- Ewch â'ch holl sbwriel adref gyda chi - gadewch i ni gadw'r arfordir a chefn gwlad yn brydferth!

**Côd Cefn Gwlad**
Parchwch bawb
Gwarchodwch yr amgylchedd
Mwynhewch yr awyr agored

## Cyngor Diogelwch

**Clogwyni** – Mae Llwybr yr Arfordir yn mynd yn agos at ymylon clogwyni mewn rhai mannau. Arhoswch ar y llwybr er eich diogelwch a dilynwch unrhyw ddargyfeiriadau sydd ar waith.

**Llanwau** – Mae llanwau uchel yn effeithio ar rai rhannau o'r llwybr, a gallant symud yn gyflym. Mewn rhai achosion, efallai y bydd angen i chi aros i'r llanw fynd ar drai cyn parhau neu fynd arlwybr amgen.

**GWIRIWCH AMSERAU'R LLANW**
Ffoniwch Wylwyr y Glannau:
**01646 690909**
Ewch i: **bbc.co.uk/weather/coast-and-sea/tide-tables**

**Ffyrdd** – Er bod y rhan fwyaf o Lwybr yr Arfordir yn dilyn llwybrau tawel, mae rhai rhannau ohono'n cynnwys cerdded ar ffyrdd heb balmentydd. Byddwch yn effro oherwydd efallai na fydd gyrwyr bob amser yn eich gweld.

**Dillad** – Gwisgwch esgidiau addas a gwisgwch yn briodol ar gyfer yr amodau - gall tywydd arfordirol newid yn gyflym!

**Argyfyngau** – Os bydd angen help arnoch, ffoniwch **999** (neu **112** ar ffôn symudol) a gofynnwch am Wylwyr y Glannau. Sylwer y gall signal ffôn symudol fod yn wael mewn rhai ardaloedd.

## Llwybr Arfordir Gŵyr

Mae rhan Gŵyr a Bae Abertawe o Lwybr Arfordir Cymru'n ymestyn o borthladd Abertawe a Glannau SA1 yn y dwyrain, o amgylch Bae Abertawe a Phenrhyn Gŵyr, i Gasllwchwr yn y gorllewin.

Mae Llwybr Arfordir Gŵyr, gyda'i olygfeydd arfordirol syfrdanol, yn eich tywys drwy Dirwedd Genedlaethol Gŵyr, Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol gyntaf y DU - rhywbeth arbennig i gerddwyr a phobl sy'n dwlu ar natur.

Darganfyddwch fwy am gerdded yn Abertawe a Gŵyr yn: **abertawe.gov.uk/cerdded**

## Manylion Cyswllt Defnyddiol

www.croesobaeabertawe.com

www.abertawe.gov.uk/tirweddgenedlaetholgwyr

facebook.com/gowernationallandscape

@TirweddGenedlaetholGwyr

www.traveline.cymru / 0800 464 00 00

Mae taflenni cerdded eraill ar gael yn y rhesel y tu mewn i fynedfa Canolfan Ddinesig Abertawe, Oystermouth Road, Abertawe SA1 3SN, neu fel ffeiliau pdf i'w lawrlwytho yn: **www.abertawe.gov.uk/cerdded**

Roedd yr wybodaeth yn gywir wrth fynd i'r wasg - Mehefin 2025.

DesignPrint 58959

Cyfoeth Naturiol Cymru Natural Resources Wales

Noddir gan Lywodraeth Cymru Sponsored by Welsh Government

Cyngor Abertawe Swansea Council